

Canllaw arfer da: gwarchod madfallod dŵr cribog yn ystod gweithrediadau rheoli coetir a gwaith coed

Fersiwn 1.0 Mai 2026

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna:

- mae'n **rhaidd** i chi gymryd [mesurau ataliol i warchod madfallod dŵr cribog](#)
- **dylech** ddilyn cymaint o'r [pum cam gweithredu gorau i wella cynefin i fadfallod dŵr cribog](#) ag y gallwch

Cyflwyniad

Mae'r fadfall ddŵr gribog (*Triturus cristatus*) yn rhywogaeth amffibiaidd sydd wedi'i diogelu'n llym ac sy'n cael ei diogelu o dan ddeddfwriaeth y DU ac Ewrop oherwydd ei gwerth cadwraethol uchel.

Ac eithrio ar Ynys Môn, mae madfallod dŵr cribog yn absennol i raddau helaeth o hanner gorllewinol Cymru. Mae'r Gogledd-ddwyrain – yn enwedig yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych – yn cynnwys poblogaethau pwysig ac fe'u hystyrir yn boblogaethau pwysig yn y DU ac yn Ewrop ar gyfer y rhywogaeth oherwydd dwysedd uchel y pyllau bridio.

Mae madfallod dŵr cribog hefyd yn eang eu gwasgariad ym Mhowys, yn ogystal ag yn rhannau o'r De-ddwyrain a rhannau deheuol y Canolbarth, o Benrhyn Gŵyr i Sir Fynwy.

Er gwaethaf statws cadwraethol ffafriol mewn rhai rhanbarthau, mae'r rhywogaeth wedi profi dirywiad hirdymor yng nghenedlaethol, yn bennaf oherwydd colled cynefinoedd, dirywiad pyllau, a thirweddau'n darnio.

Yn gyffredinol, mae madfallod dŵr cribog yn bridio mewn pyllau canolig i fawr (fel arfer 50 i 300 metr sgwâr) sy'n cynnal llystyfiant dyfrol ar gyfer dodwy wyau, sydd ag ardaloedd o ddŵr agored ar gyfer ymddygiadau denu cymar gwrywod, ac sy'n destun amodau cynnes heulog heb lawer o gysgod, yn enwedig ar y glannau deheuol. Fodd bynnag, gellir defnyddio cyrff dŵr eraill hefyd.

Yr un mor hanfodol i'w cylch bywyd, mae cynefinoedd daearol yn darparu cyfleoedd ar gyfer fforio, cysgodi, gwasgaru a gaeafgyngu. Gall madfallod dŵr wasgaru hyd at 1 km o byllau dŵr bridio, er bod y rhan fwyaf yn aros o fewn 250–500 metr, yn dibynnu ar ansawdd y cynefin.

Mae nodweddion daearol o werth uchel lle mae madfallod dŵr cribog yn debygol o gysgodi yn cynnwys is-dyfiant trwchus, tomenni malurion a boncyffion, waliau cerrig a thomenni creigiau/rwbel, prennau marw sydd wedi cwmpo (fel arfer >15 cm mewn diamedr), systemau gwreiddiau coed, a thyllau mamaliaid.

Mae coetir, yn enwedig coetir llydanddail hen dyfiant, yn arbennig o werthfawr pan fydd yn agos at byllau dŵr bridio. Gall poblogaethau mawr, sydd fel arfer yn gysylltiedig â safleoedd dynodedig, ddibynnu ar goetir llydanddail a phrysgwydd hyd at 1 km o byllau dŵr bridio.

Mae'r rhywogaeth yn ffynnu mewn tirweddau clytwaith sy'n cyfuno glaswelltir, prysgwydd a choetir, gyda gwrychoedd, prennau marw, tomenni creigiau a waliau yn cynnig safleoedd gaeafgysgu a lloches hanfodol. Mae ymchwil wedi dangos cydberthynas uniongyrchol rhwng argaeledd prennau marw sydd wedi cwmpo a maint y boblogaeth.

Mae cadwraeth y fadfall ddŵr gribog yng Nghymru yn dibynnu ar greu ac adfer pyllau dŵr, gwella cynefinoedd daearol, a chysylltedd tirwedd i gynnal poblogaethau hyfyw.

Sut mae madfallod dŵr cribog yn cael eu gwarchod?

Mae'r fadfall ddŵr gribog yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop sy'n cael ei gwarchod o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi osgoi effeithio arnynt mewn ffordd a fyddai'n drosedd, fel eu lladd neu eu hanafu'n fwriadol, neu eu haflynyddu'n fwriadol neu'n ddi-hid, yn enwedig i'r graddau y mae'n amharu ar eu gallu i oroesi, bridio neu aeafgysgu, neu'n effeithio'n sylweddol ar y boblogaeth leol.

Gallai difrodi neu ddinistrio safleoedd bridio a manau gorffwys madfallod dŵr cribog fod yn drosedd hyd yn oed os nad ydych chi'n ei wneud yn fwriadol. Bydd poblogaethau'r fadfall ddŵr gribog yn dibynnu ar un neu ragor o byllau dŵr bridio a'r cynefinoedd daearol cyfagos ar gyfer bridio, gaeafgysgu a fforio, felly dyma'r ardaloedd y mae angen eu gwarchod.

Mae gan reoli coetiroedd yn briodol rôl bwysig i'w chwarae wrth gynnal yr amodau cynefin y mae eu hangen arnynt, o ran darparu cynefin daearol addas ac wrth sicrhau nad yw pyllau dŵr bridio yn dirywio – er enghraifft, oherwydd gormod o gysgodi neu ddŵr ffo. Fodd bynnag, gallai gweithrediadau coedwigaeth gael effaith drychinebus ar y boblogaeth leol os na chânt eu rheoli mewn modd sensitif.

Gall cynnal swyddogaeth ecolegol madfallod dŵr cribog olygu sicrhau bod digon o gynefinoedd daearol addas a thawel yn cael eu cynnal o amgylch pyllau dŵr bridio fel bod rhywle diogel ("lloches") bob amser i'r boblogaeth leol. Mae darparu lloches yn elfen angenrheidiol o weithio'n gyfreithlon – nid mater o ddilyn arferion gorau yn unig ydyw.

Oherwydd bod pob cam o gylch bywyd y fadfall ddŵr gribog yn digwydd yn y pwll bridio, neu o'i gwmpas, nid oes 'cyfnod diogel' clir pan all gwaith ddigwydd heb risg. Fodd bynnag, mae cyfnodau pan maen nhw'n tueddu i fod yn llai egnïol yn y cynefin daearol, felly gellir amseru gweithgareddau coetir fel arfer i leihau'r effeithiau tebygol. Fel gyda'r

rhan fwyaf o rywogaethau, mae madfallod dŵr cribog yn arbennig o sensitif i aflonyddwch yn ystod y tymor bridio. Mae bridio yn digwydd yn y pwll dŵr felly mae osgoi gwaith yn agos at y dŵr yn hanfodol.

Bydd dylunio'ch coetir gan ystyried madfallod dŵr cribog yn gwneud gweithio yn y dyfodol yn symlach. Er enghraifft, drwy beidio ag ailstocio hyd at ymyl pyllau dŵr bridio, gellir cadw'r ardal yn bennaf fel cynefin.

Os na allwch osgoi trosedd drwy ddilyn y canllawiau hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu datblygu ffyrdd gweithio amgen, penodol i'r safle, i'ch galluogi i lynu wrth y gyfraith. Os nad yw hynny'n bosibl, efallai y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi trwydded i'ch galluogi i gyflawni eich gwaith yn gyfreithlon, ond dim ond os ydym yn hyderus nad oes dewis arall boddhaol ac na fydd yn niweidio statws cadwraethol ffafriol y rhywogaeth y gallwn wneud hynny. Dim ond fel dewis olaf y gellir rhoi trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Mae'r canllaw arfer da hwn wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru fel canllaw o dan baragraff 43(9)(b) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn yn golygu bod rhaid i lys ei ystyried mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau aflonyddu ar fadfallod dŵr cribog, neu ddifrodi a dinistrio eu safleoedd bridio neu eu manau gorffwys.

A yw madfallod dŵr cribog yn defnyddio eich coetir?

Gyda Chymdeithas y Mamaliaid, rydym wedi cynhyrchu canllaw, [Rhywogaethau gwarchoddedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru](#), sy'n cynnwys cyngor penodol ar sut i gynnal arolygon i wirio am rywogaethau a warchodir.

Gwirio am gofnodion

Mae madfallod dŵr cribog yn doreithiog mewn rhannau o Gymru ac yn absennol i raddau helaeth mewn eraill.

Oni bai eich bod yn sicr eich bod y tu allan i'w tiriogaeth hysbys, dylech wirio am unrhyw gofnodion o fadfallod dŵr cribog o fewn 1 km i'ch coetir. Os byddwch yn dod o hyd i gofnodion, bydd angen i chi chwilio am byllau bridio posibl pan fyddwch yn cynnal eich arolwg ar droed.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded cwmpo coed, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio am gofnodion. Os byddwn yn dod o hyd i gofnodion sy'n awgrymu presenoldeb madfallod dŵr cribog, byddwn fel arfer yn ychwanegu amod amgylcheddol at eich trwydded torri coed yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn y mesurau yn y canllaw hwn. Os yw eich coetir yn agos at safle gwarchoddedig sydd wedi'i ddynodi ar gyfer madfallod dŵr cribog, efallai y byddwn yn ychwanegu amodau pwrpasol at eich trwydded cwmpo coed er mwyn sicrhau bod y poblogaethau pwysig hyn yn cael eu gwarchod.

Arolwg ar droed

Os ydych chi o fewn tiriogaeth madfallod dŵr cribog ac wedi dod o hyd i gofnod o fewn 1 km o'ch ardal waith, bydd angen i chi chwilio am unrhyw gyrff dŵr o fewn 250 metr i'ch ardal waith ac asesu eu potensial i gael eu defnyddio fel pyllau dŵr bridio. Bydd [Rhywogaethau gwarchoddedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru](#) yn cynorthwyo unigolyn cymwys i wneud hyn.

Os asesir bod unrhyw gyrff dŵr yn addas, rhaid i chi gymryd yn ganiataol eu bod yn cael eu defnyddio fel pyllau dŵr bridio a bod y cynefin daearol cyfagos hefyd yn cael ei ddefnyddio.

Fodd bynnag, os hoffech chi fod yn fwy sicr a yw madfallod dŵr cribog yn defnyddio pwll dŵr, gallwch gomisiynu arolwg proffesiynol a gall arolygon eDNA, os cânt eu cynnal yn iawn, bellach ddarparu ffordd gymharol rad o gadarnhau presenoldeb neu absenoldeb y rhywogaeth mewn corff dŵr.

Os ydych chi eisoes yn gwybod bod madfallod dŵr cribog yn defnyddio eich coetir, gallwch chi fwrw ymlaen ar y sail honno.

Cyn y gallwch chi weithredu'r mesurau ataliol yn yr adran nesaf, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r canlynol:

1. A yw eich coetir o fewn tiriogaeth ddisgwyliedig madfallod dŵr cribog yng Nghymru ac a oes cofnodion o fewn 1 km i'ch ardal waith; os felly:
2. A yw unrhyw gorff dŵr o fewn 250 metr i'ch ardal waith yn addas i'w ddefnyddio gan fadfallod dŵr cribog ac felly'n cael ei dybio i fod yn bwll dŵr bridio.

Os nad ydych chi'n hyderus y gallwch chi asesu addasrwydd corff dŵr ar gyfer madfallod dŵr cribog, bydd angen i chi sicrhau gwasanaethau ecolegydd cymwys i'ch cynghori. Fel arall, gallwch chi gymryd ymagwedd ragofalus a chymryd yn ganiataol bod unrhyw gyrff dŵr yn byllau dŵr bridio.

Os byddwch chi'n canfod bod cofnod hanesyddol o bwll bridio yn ymwneud â chorff dŵr nad yw'n amlwg ar y ddaear mwyach, neu un sydd wedi colli unrhyw botensial i gael ei ddefnyddio gan fadfallod dŵr, efallai y byddwch chi'n gallu diystyru'r rhain. Fodd bynnag, er mwyn eich amddiffyn eich hun, dylech gofnodi'r dystiolaeth yn ofalus cyn i chi wneud unrhyw waith.

Mesurau ataliol i warchod madfallod dŵr cribog

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn yr arferion da hyn i gadw o fewn y gyfraith, bydd angen i chi lynu wrth y mesurau canlynol. Os na allwch wneud hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu awgrymu mesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi wyro oddi wrth y mesurau safonol hyn heb achosi trosedd. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen i chi newid eich cynlluniau neu ystyried gwneud cais am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Os byddwch yn dod o hyd i dystiolaeth o'r rhywogaeth yn annisgwyl yn ystod gwaith, dylech ystyried a allwch gymhwyso'r mesurau yn y canllaw hwn neu geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Os ydych chi eisoes yn gweithredu o dan drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, rhaid i chi barhau i ddilyn ei thelerau ac amodau.

Wrth weithio o fewn 250 metr i bwll dŵr bridio, boed yn dybiedig neu un sydd wedi'i gadarnhau, ar gyfer madfallod dŵr cribog, rhaid glynu wrth y canlynol:

1. Mesurau i warchod pyllau dŵr bridio

- Rhaid gwarchod pyllau dŵr bridio rhag unrhyw ddifrod neu aflonyddwch.
- Osgowch sefyllfa lle mae unrhyw lygredd yn mynd i mewn i'r pwll dŵr, gan gynnwys siltio o ddŵr ffo.
- Peidiwch ag ailstocio o fewn o leiaf 20 metr i ymyl y pwll dŵr.
- Torrwch goed cyfagos i ffwrdd o'r pwll dŵr i atal torion rhag mynd i mewn i'r pwll dŵr.

2. Mesurau i warchod cynefinoedd daearol o fewn 250 metr i byllau dŵr bridio

- Cyfyngwch waith i ddim mwy na 25% o gynefinoedd daearol yn yr ardal hon mewn unrhyw flwyddyn.
- Marciwch a gwarchodwch nodweddion cynefin addas rhag difrod neu aflonyddwch (ardaloedd o is-dyfiant trwchus, tomenni boncyffion neu falurion, prennau marw sydd wedi cwmpo, waliau, neu domenni o gerrig ac ati).
- Peidiwch â gwneud unrhyw greithio hadau, cribinio tocion, creu twmpathau colynnog, na pharatoadau ailstocio eraill sy'n troi'r ddaear.
- Peidiwch â phentyrru malurion na boncyffion o fewn yr ardal oni bai eu bod yn cael eu gadael yn barhaol yn eu lle fel nodweddion cynefin a pheidiwch â chael gwared ar bentyrrau o foncyffion na thocion sydd eisoes wedi'u sefydlu.
- Osgowch ddefnyddio sgidwyr – yn ddelfrydol, echdynnwch gyda cherbyd cludo coed neu nenlinell.
- Defnyddiwch gyn lleied o lwybrau echdynnu â phosibl i leihau effeithiau ar y ddaear – pan fo modd, defnyddiwch lwybrau sy'n bodoli eisoes.

3. Mesurau ychwanegol i warchod cynefinoedd daearol o fewn 100 metr i byllau dŵr bridio

- Peidiwch â gweithio rhwng 1 Mawrth a 30 Mehefin (y tymor bridio allweddol).
- Cyfyngwch waith i oriau golau dydd.
- Osgowch ddefnyddio peiriannau fel peiriannau cynaeafu neu gerbydau cludo coed os yn bosibl. Os oes rhaid eu defnyddio, lleihewch symudiadau o fewn yr ardal hon i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol i gwmpo ac echdynnu coed o'r glustogfa honno.
- Dylid gwneud toriadau ar gyfer cwmpo coed o leiaf 20 cm uwchben y ddaear.

Y pum cam gweithredu gorau i wella cynefinoedd ar gyfer madfallod dŵr cribog

Gall rheoli eich coetir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ddod â buddion sylweddol i fywyd gwyllt. Byddai'r camau gweithredu isod yn arbennig o werthfawr i fadfallod dŵr cribog, a byddant hefyd yn cefnogi llawer o rywogaethau eraill:

1. Rheoli cysgodi pyllau dŵr yn ormodol

Tynnwch gellïoedd trwchus o goed o ymylon pyllau dŵr, peidiwch ag ailstocio mewn ardaloedd sy'n debygol o achosi cysgod, a rheolwch ailgyfiant gormodol.

2. Cynnal a chreu pyllau dŵr gerllaw

Sicrhewch fod pyllau dŵr addas yn bresennol o fewn ardaloedd coetir neu wrth eu hymyl. Dylai pyllau gynnwys dŵr glân a digonedd o lystyfiant dyfrol, a dylent fod yn rhydd o bysgod, sy'n ysglyfaethu ar larfâu madfallod dŵr cribog.

3. Gwella ansawdd cynefinoedd daearol

Gwellwch gyflwr tir coetir trwy gynnal clytwaith o ddeiliach, boncyffion, tomenni tocion, a phridd heb ei darfu. Mae'r nodweddion hyn yn darparu lloches, cyfleoedd fforio a safleoedd gaeafu i fadfallod dŵr cribog.

4. Sicrhau cysylltedd cynefinoedd

Cynhaliwch ac adfer coridorau ecolegol rhwng pyllau dŵr a chynefinoedd daearol. Mae cysylltedd trwy wrychoedd, porfa arw a phrysgwydd yn hanfodol ar gyfer symudiadau tymhorol a chyfnwidd genetig.

5. Rheoli bioddiogelwch, rhywogaethau goresgynnol ac ysglyfaethwyr

Dilynwch brotocolau bioddiogelwch amffibiaid priodol wrth weithio ger pyllau dŵr. Monitwch a rheoli planhigion ac anifeiliaid goresgynnol (er enghraifft, pysgod mewn pyllau dŵr, dryslwyni rhododendron trwchus) a all ddirywio ansawdd cynefinoedd neu fygwth madfallod dŵr cribog yn uniongyrchol.

Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am dechnegau arolygu a dulliau rheoli cadarnhaol ar gyfer madfallod dŵr cribog yma:

[Rhywogaethau gwarchoddedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru](#)

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC): [Amphibian Habitat Management Handbook](#)

Froglife: [Great Crested Newt Conservation Handbook](#)

English Nature: [Great crested newt mitigation guidelines](#)